CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 21ain HYDREF 2025.

NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. Mrs. L Roberts. (Cadeiryddes) Cyng. Ms. N Dafydd, J Evans, Mrs. B Jones, W R Parry, D T Roberts, R R Roberts, ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. G Jones, J E Lewis, R G Parry.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 16eg MEDI 2025 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. W R Parry eilio Cyng. J Evans.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Adroddiad o Ymddiriedolwyr a Datganiad Ariannol heb ei Archwilio 31ain Mawrth 2025. ar gyfer Elusen William Bold.
Ar ol i`r Cyngor ei derbyn gan yr Ymddieriolwyr. Trwy Gynnig Cyng. R R Roberts eilio Cyng. D T Roberts fod yr adroddiad wedi ei derbyn, ond nid fel un gywir. (Unfrydol)

Ffin glaswellt ger 5 Bro Celyn, Llynfaes sydd angen sylw mae y mater yn dragio ers amser. Y Clerc wedi cysylltu ar Cyngor Sir ond maent yn llusgo ei traed. Dal ymlaen i gael canlyniad un ffordd neu`r llall. Y Clerc yn gofyn i`r Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd i rhoi pwysa arnynt.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Y Cyngor yn cytuno i gyflwyno her gyfreithiol yn erbyn datblygu Solar Alaw Môn.
Yn ddiweddar caniataodd Gweinidogion Cymru y gais Panel Solar (268 hectar) tir Amaethyddol rhwng Llantrisant a Llannerch-y-medd. Rhoddwyd caniatad er gwaethaf gwrthwynebiad y cyhoedd a`r Cyngor Sir. Daw penderfyniad a`r ol i`r Pwyllgor llawn bleidleiso o blaid archwilio pob llwybyr posib, gan gynnwys adolygiad barnwrol, i herio`r penderfyniad.
Ychwanegodd y Cynghorydd Aled Morris Jones. Fedrwn ni ddim fforddio colli tir amaethyddol gwerthfawr. Mae project hwn gyfystyr a boddi ardal, yn union fel Tryweryn, ond boddi gyda phaneli solar yn yr achos hwn yn hytrach na dwr.
Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth ac yn yn gefnogol cant y cant. Mae y Cyngor wedi gwrthwynebu o`r dechrau.

4. Swyddog Polis - Rhian W Jones.
Fforwm Cyswllt Cyngor Tref a Chymuned 20ed Hydref 2025.
Siambr y Cyngor, Llangefni am 6.30. Cyfarfod Hybrid. Linc Zoom.
Derbyn gan y Cyngor. Cyng. J E Lewis fydd yn Cynrychioli.

GOHEBIAETH (ARALL)

5. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.
Un Llais Cymru - Gweithdai Adroddiadau Adran 6 ar Lein.
Mae yn rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei Adroddiadau erbyn diwedd y flwyddyn.
Yn ystod y gweithdy ar-lein Cynghorau cael cyfle i ofyn cwestiynau, rhannu arfer gorau a gweithio gyda Swyddogion Bioamrywiaeth ar eu Hadroddiadau Adran 6 eu hunain.
Derbyn y wybodaeth. Mae yn anodd cael Cynghorwyr i symud ymlaen, er bod rhai ar lein nid ydynt yn gyfarwydd a Zoom. Rhai Cynghorwyr ddim ar y lein o gwbwl. On bydd rhaid adroddiad cyn diwedd y flwyddyn.

6. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.
Comisiynydd Pobl Hyn Cymru.
Papur Briffio: Gwneud Cymru`n Genedl o Gymunedau oed-gyfeillgar.
Papur yn ymdrin a`r canlynol:-
Pwysig gwneud Cymru`n Genedl o Gymunedau Oed-gyfeillgar.
Nodweddion, Cymunedau Oed-gyfeillgar a`u manteision.
Sut gallwn greu Cymunedau Oed-gyfeillgar cynaliadwy a ffyniannus.
Y Cynnydd hyd yma. Yr achos dros gymorth parhaus. Astudiaethau achos sy`n tynnu sylw at Gymunedau Oed-gyfeillgar sydd eisioes yn bodoli.
Trafod:- david.mckinney@olderpeople.wales
Y Cyngor yn derbyn ac yn gefnogol.

7. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.
Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi nawr ar agor.
Gall Cymunedau o fewn 5 milltir i orsafoedd trosglwyddo gwastraff neu tirlenwi bod yn cymwys i grant o £5,000 i £49,999 i ariannu prosiect bioamrywiaeth.
Derbyn a cadw mewn golwg.

8. Adrian Berndt - Cyfarwyddwr 20`S Digon.
Cymru 20mya 2 ail Benblwydd.
Mewn 18 o fisoedd. 882 (25%) llai o bobl wedi ei brifo mewn damwain ar lonydd 20/30mya.
Gyda disgwyliad o 1,000 llai o golledigion yn y ddwy flynedd gyntaf.
Mewn 18 o fisoedd. 14 o bobl heb ei lladd a`r lonydd Cymru oherwydd 20mya a 98 heb orfod ategu Ysbyty gyda damwain difrifol.
Primium Ysiwrant i yrrwyr yn Gymru ar ddiwedd 2023 yn gweld ar gyfertaledd £45 yn llai.
Y Cyngor yn derbyn yr adroddiad, nid oedd sylw pellach.

9. Chwarae Dros Gymru. Cylchgrawn. Gwnawyn / Haf. Cyng. Mrs. B Jones yn ei dreulio.

10. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.
Diogelu Cymunedau Cymraeg, ar rhan Cyngor Cymuned Trewalchmai. (Grwp Gwarchod Gwalchmai). Yn gofyn a allai pob Cyngor Tref a Chymuned Ynys Môn ystyried cefnogi.
Comisynu gan Llywodraeth Cymru dan Gadeiryddiaeth Dr Simon Brooks.
Yn ôl y cyfrifiad 2021 danghoswyd fod dros 70% o drigolion datgylch Cyngor Cymuned

Trewalchmai yn siarad Cymraeg. Fel yn Llanerchymedd a Niwbwrch yr unig Gymunedau bellach ym Môn ble mae`r Gymraeg yn ceisio sefyll yn erbyn y dirywaid amlwg. Angenrheidiol fod yr ardaloedd hyn yn cofrestru fel:-
Ardaloedd o Arwyddocad Ieithyddol Dwysedd uwch. Rhaid dioglenu ein hetifeddiaeth a`n iaith.
Erfyn arnom i aeloesi.
Cafwyd trafodaeth gryno gyda wahanol syniadau. Nid oedd y Cyngor yn gefnogol i alwad Grwp Gwarchod Gwalchmai. Felly yn unfrydol pasiwyd i`w adael.

11. Awdit 2024 / 2025. Cafwyd yn ol gan Awdit Cymru wedi ei cwblhau.
Barn yr Awdit oedd na oedd unrhyw fater wedi dod i`w sylw i achosi gofal.
Angen eglurhad i rhif 12 o wahaniaeth yn y figyrau yn rhif 12 2023/2024 a 2024/2025. (wedi ei wneud)
Cynllun Hyfforddiant i Aelodau heb ei wneud. (Wedi ei mabwysiadu ers hyn)
Angen gwneud pethau yn electronig. (Nid ydyw y Cyngor wedi addasu i hyn) Meddwl i`r dyfodol.
Y Cyngor yn ei derbyn a`i cymeradwyo. Unfrydol.

RHODDION.

12. Dim.

PLWYFOL.

13. Parcio Pentref Bodffordd.
Mae y Cyngor yn bryderus iawn o`r ceir a faniau ar lon o Ty Twyrch tuag at Sgwar Bodffordd.
Mae rhai symud ymlaen i wneud rhywbeth i ddatruso y broblam.
Y Cyngor mewn cysylltiad ac Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

14. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd.
Derbyniwyd adroddiad a oedd yn gystylliedig a wardiau Cyngor Bodffordd. Diolchwyd iddi.

MATERION ARIANNOL.

15. Cyfrif Rhedegol. £25,050.53 (Gosod Carreg E W Owen £100.00)

Mynwent Gymunedol Bodffordd 10,010.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

16. Clerc £500.55. N Williams (Cynnal a Chadw y Fynwent Gymunedol 2) £500.00.

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng R R Roberts eilio Cyng. J Evans..

D Owen (Clerc)